Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 12/01/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, E.Lovgreen (Is-gadeirydd – yn y Gadair), R.Thomas, M.Sarnacki

---

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.L.Davies, E.R.Hughes

Cyfieiriwyd at y ffaith fod y Cynghorydd W.L.Davies yn yr ysbyty ar y funud, a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Nadolig

Cafwyd trafodaeth yn rhoi adborth yr aelodau ar holl drefniadau'r Nadolig.

Penderfynwyd:

(1) Gan fod y tendr yn mynd allan eleni ar gyfer gosod goleuadau Nadolig ac yn y blaen yn y dref, dylid cynnwys y canlynol yn y dogfennau tendr:
- **cael Coeden Nadolig yn Turf Square;**
- **datgan pwysigrwydd ynni gwyrdd, a rhoi amod fod y goleuadau Nadolig yn cael eu gosod ar "timer", ac felly ddim ymlaen yn ystod y dydd;**
- **Rhoi amod fod y goleuadau Nadolig yn medru cael eu tynnu i lawr erbyn y 6ed o Ionawr 2022;**
- **edrych ar gael Coeden Nadolig go iawn ar y Maes (tebyg i'r enghraifft a welwyd yn Aberystwyth).**

(2) Gofyn i'r Clerc anfon llythyr i ddiolch i'r holl ysgolion a fu anfon posteri roeddynt wedi eu gwneud i Ysbyty Gwynedd a sefydliadau iechyd eraill.

(3) O ran y gystadleuaeth poster buddugol i ysgolion, argymell y dylai'r wobr fynd i'r plentyn buddugol yn hytrach nag i'r ysgol buddugol.

(4) Y dylid parhau gyda'r drefn o Brif Ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen yn beirniadu'r Gystadleuaeth Ffenestri Siopau.

(5) Argymell y dylid creu trefn / fforwm fel fod disgyblion chweched dosbarth yn cyfarfod gyda'r Cyngor Tref bob rhyw 6 mis er mwyn ennyn diddordeb yn y broses ddemocrataidd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod pobl ifanc 16 – 17 oed yn cael yr hawl i bleidleisio mewn rhai etholiadau.

5. Gŵyl Dewi

Cafwydd trafodaeth ar y ffordd ymlaen o ran trefniadau Gŵyl Dewi eleni, gan y byddai'n amhosib i'r trefniadau arferol gymryd lle oherwydd Covid-19.

Penderfynwyd:

(1) Peidio â chynnal yr Orymdaith Gŵyl Dewi eleni oherwydd Covid-19.

(2) Gan nad yw ysgolion yn agor yn y modd arferol tan o leiaf hanner tymor Chwefror, yn hytrach na defnyddio artist preswyl i wneud gwaith celf gydag ysgolion, y dylid cynnal cystadleuaeth ysgrifennu cerdd i ysgolion.

(3) Dylid cynnal 6 cystadleuaeth unigol, hynny yw cystadleuaeth i:

- **Cyfnod Sylfaen (Blynyddoedd 1 a 2).**
- **Blynyddoedd 3 a 4.**
- **Blynyddoedd 5 a 6.**
- **Blynyddoedd 7, 8 a 9.**
- **Blynyddoedd 10 ac 11.**
- **Blynyddoedd 12 ac 13.**

(4) Argymell mai "Caernarfon Heddiw" ddylai fod themá'r gystadleuaeth, ac argymhellir gofyn i'r bardd Rhys Iorwerth feirniadu.

(5) Y dylai'r Cyngor Tref baratoi neges Gŵyl Dewi ar eu gwefan ac ar y safle Facebook.

(6) Y dylid ffilmio'r plant yn darllen eu cerddi buddugol.

(7) Argymell gwobr o fedal a £10 i'r buddugwyr.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.25 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____